*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 1226

# Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (Diwygio) 2009

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (Diwygio) 2009.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Mehefin 2009, ond—

(a) mae'r diwygiad a wneir gan erthygl 2 a pharagraff 1 o'r Atodlen i'r graddau y mae a wnelo â'r rheol newydd B5A (yr hawlogaeth i ddau bensiwn) yn cael effaith o 1 Ebrill 2007; a

(b) mae'r diwygiadau eraill yn cael effaith o 1 Gorffennaf 2007.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992

**2.** Diwygir Atodlen 2 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992(**1**) (y nodir Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) ynddi) yn unol â'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

*Brian Gibbons*
Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

13 Mai 2009

(**1**) O.S. 1992/129; a ddiwygiwyd gan O.S. 1997/2309 a 2851, 1998/1010, 2001/3649 a 3691, 2004/1912, 2006/1672 (Cy.160) a 2007/1074 (Cy.112). Gwnaed y Cynllun o dan adran 26 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân 1947 (p.41). Diddymwyd y Ddeddf honno gan adran 52 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21) ("Deddf 2004") ac Atodlen 2 i Ddeddf 2004. Mae is-adrannau (1) i (5) o adran 26 yn parhau mewn grym, at ddibenion y cynllun a sefydlwyd o dan yr adran honno fel Cynllun Pensiwn y Dynion Tân, gan adran 36 o Ddeddf 2004 ac O.S. 2004/2918 (Cy.257) a wnaed o dan y Deddf honno. Newidiwyd enw'r cynllun, mewn perthynas â Chymru, gan erthygl 4(1) o O.S. 2004/2918 (Cy.257).